**Adroddiad Gwrthwynebiad ar y Cyfuniad Arfaethedig o**

**Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen**

**Bae Cinmel, Conwy**

**Gorffennaf 2025**

***This document is also available in English***

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| 1 | Hysbysiad statudol |
| 2 | Gwrthwynebiadau |
| 3 | Ymateb yr awdurdod i'r gwrthwynebiadau / sylwadau |
| 4 | Adborth ESTYN |
| 5 | Penderfyniad y Cabinet |

## 1. Hysbysiad Statudol

### Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Ar 28 Ebrill 2025, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet (18 Chwefror), cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Hysbysiad Cau, yn nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu sefydlu ysgol gymysg newydd, cyfrwng Saesneg, ar gyfer Bae Cinmel i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen, ar gyfer plant 3-11 oed o 1 Medi 2026.

O ganlyniad i'r cynigion a amlinellwyd, byddai Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn dod i ben o 31 Awst 2026.

Dechreuodd hyn gyfnod rhybudd o 28 diwrnod a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw randdeiliad â diddordeb gyflwyno eu barn ar y cynnig.

Dechreuodd y cyfnod rhybudd ar 28 Ebrill 2025 a daeth i ben ar 25 Mai 2025.
Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n manylu ar y camau gweithredu gofynnol y mae'n rhaid eu cymryd fel rhan o'r broses.

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y Cyfnod Hysbysu, yn cyfeirio at ymatebion a dderbyniwyd a bydd yn ceisio ateb ac ymdrin ag ymholiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

Anfonodd Conwy gopïau o'r Hysbysiad Statudol drwy ddolen e-bost yn rhoi manylion sut i rannu unrhyw sylwadau ar y cynnig. Arddangoswyd yr Hysbysiad Statudol wrth gatiau Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen a chafodd ei gyhoeddi hefyd ar dudalennau gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddwyieithog ynghyd â'r holl ddogfennaeth arall ynghylch y Cynnig.

Anfonwyd nodyn atgoffa hefyd drwy e-bost ar 14 Mai 2025 yn atgoffa rhanddeiliaid o'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau/gwrthwynebiadau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr o dderbynwyr a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

| **Enw/Sefydliad** |
|---|
| Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, athrawon a staff Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen |
| Llywodraethwyr Ysgol y Foryd & Ysgol Maes Owen |
| Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Emrys ap Iwan, Ysgol St George ac Ysgol Glan Gele, Ysgol Sant Elfod ac Ysgol Glan Morfa |
| Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Rufeinig Wrecsam |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Dinbych |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Gwynedd |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Is-adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |

| |
|---|
| Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal sy'n destun cynigion |
| Cynghorydd Lleol Conwy ar gyfer Bae Cinmel |
| Cyngor Cymuned Bae Cinmel |
| Estyn |
| Undebau Llafur Addysgu a Staff |
| GWE |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| CYPP Conwy |
| Cymuned yn Gyntaf Conwy |
| Dechrau'n Deg Conwy |

**2. Gwrthwynebiadau**

O dan adran 49 o Ddeddf 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny (“yr Adroddiad Gwrthwynebiadau”). Rhaid i hyn ddigwydd:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53 o'r Ddeddf, cyn diwedd 7 diwrnod yn dechrau gyda diwrnod ei benderfyniad: a

(b) ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 diwrnod yn dechrau gyda diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Dechreuodd y cyfnod rhybudd ar 28ain Ebrill 2025 a daeth i ben am hanner nos ar 25ain Mai 2025.

Derbyniwyd 2 ymateb drwy’r ffurflen ar-lein.

Edrychwyd ar dudalen we’r Hysbysiad Statudol ar wefan Conwy 37 gwaith rhwng 28 Ebrill 2025 a 25 Mai 2025.

**3. Ymateb yr Awdurdod i'r gwrthwynebiadau/sylwadau**

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u dangos yn y tabl canlynol, ynghyd ag ymateb Conwy.

| Gwrthwynebiad / Sylw | Ymateb yr Awdurdod |
|---|---|
| Rwy'n croesawu uno'r ddwy ysgol, fel y cam cyntaf tuag at gael adeilad ysgol newydd i'n cymuned. | Pe bai uno'n digwydd, byddai'r ysgol yn aros yr un fath fwy neu lai gyda'r hol safleoedd presennol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithlon Bydd gan yr ysgol gynradd newydd fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyfleusterau'n fwy effeithiol, er enghraifft defnydd cymunedol, a allai hefyd gynhyrchu refeniw ychwanegol wrth gefnogi ethos cymunedol. |
| Na, dydw i ddim yn cytuno â'r cynnig | Ni roddwyd unrhyw resymau ychwanegol gan yr ymatebydd hwn felly n allwn ymdrin ag unrhyw sylwadau'n uniongyrchol. |

**4. Adborth ESTYN**

Ni roddodd ESTYN unrhyw adborth ar y cam hwn ond fe wnaethant ymateb yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol i ddweud "mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o, o leiaf, gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal."

Gellir gweld ymateb llawn ESTYN yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y dudalen we ganlynol:https://www.conwy.gov.uk/cy/Preswylydd/Addysg-a-Theuluoedd/Ymgynghoriadau-Addysg/Cynnig-i-gyfuno-Ysgol-y-Foryd-ac-Ysgol- Maes-Owen..aspx

**5. Penderfyniad y Cabinet**

Cyfarwyd Aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 18 Chwefror 2025 i drafod y bwriad i uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen a chymeradwywyd cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol yn ffurfiol (ar gyfer y cynnig i uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen).

Dechreuodd hyn gyfnod rhybudd o 28 diwrnod a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw randdeiliad â diddordeb gyflwyno eu barn ar y cynnig.

Dechreuodd y cyfnod rhybudd ar 28ain Ebrill 2025 a daeth i ben am hanner nos ar 25ain Mai 2025.

Bydd y penderfyniad a ddylid uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn ffurfiol yn mynd gerbron Cabinet Conwy ar 12 Awst 2025.